

2019 Rhif (Cy. )

2019 No. (W. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470  
(Man i'r De o Llangurig, Powys)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2019

The A470 Trunk Road (South of  
Llangurig, Powys) (Temporary  
Prohibition of Vehicles) Order  
2019

*Gwnaed* 24 Mehefin 2019

*Made* 24 June 2019

*Yn dod i rym* 3 Gorffennaf 2019

*Coming into force* 3 July 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the roads.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

### Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Man i'r De o Llangurig, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 3 Gorffennaf 2019.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (South of Llangurig, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2019 and it comes into force on 3 July 2019.

---

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

---

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

## 2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 18:00 o’r gloch ar 3 Gorffennaf 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig sy’n ymestyn o bwynt 513 o fetrau i’r gogledd-orllewin o’i chyffordd yn Nolfach Uchaf hyd at ganolbwynt Cylchfan Llangurig yn Sir Powys.

### Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd.

### Cymhwys

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Mehefin 2019

*Richard Morgan*  
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

## 2. In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984 Act(2) or in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Cardiff to Llangurig trunk road that extends from a point 513 metres northwest of its junction at Dolfach Uchaf to the centre point of Llangurig Roundabout in the County of Powys;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 18:00 hours on the 3 July 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

### Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

24 June 2019

*Richard Morgan*  
Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (MAN I'R DE O LANGURIG, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, ger Llangurig, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar y darn gefnffordd yr A470 i'r de o Langurig sy'n ymestyn o bwynt 513 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd yn Nolfach Uchaf hyd at ganolbwynt Cylchfan Llangurig yn Sir Powys.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A470 tua'r de i Raeadr Gwy, yr A44 tua'r dwyrain i'r Groes, yr A483 tua'r gogledd i'r Drenwydd, yr A489 tua'r gorllewin i gyffordd Moat Lane i ymuno â'r A470 tua'r de. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Disgwylir i'r gwaharddiad fod yn weithredol dros nos (18:00 o'r gloch hyd 05:00 o'r gloch) o 3 Gorffennaf 2019 hyd 4 Gorffennaf 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.gweddill.llyw.cymru/legislation/subordinate](http://www.gweddill.llyw.cymru/legislation/subordinate) (Detholer: Offerynnau statudol lleol/Gorchymynion traffig dros dro/2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (SOUTH OF LLANGURIG, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road near Llangurig, Powys.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works) from proceeding on the A470 trunk road south of Llangurig that extends from a point 513 metres northwest of its junction at Dolfach Uchaf to the centre point of Llangurig Roundabout in the County of Powys.

The alternative route for northbound vehicles is via the southbound A470 to Rhayader, eastbound A44 to Crossgates, northbound A483 to Newtown, westbound A489 to Moat Lane junction to join the A470 southbound. Vice versa for Southbound vehicles.

The prohibition is expected to operate overnight (18:00 hours until 05:00 hours) from 3 July 2019 until 4 July 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gweddil.gov.wales/legislation/subordinate](http://www.gweddil.gov.wales/legislation/subordinate) (Select: Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/2019).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

